

COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMUNED LLANBEDR DYFFRYN CLWYD A GYNHALIWDYD AR DDYDD LLUN 3 RHAGFYR 2018 YN YR YSTAFELL BWYLLGOR, NEUADD Y PENTREF, LLANBEDR DYFFRYN CLWYD AM 7.30 Y.H.

YN BRESENNOL: Y Cynghorwyr Lyn Evans (Cadeirydd), Tim Baker, Ken Tams, Dave Ritchie, Nick Smith, Rhian Jones (o 7.50 y.h. ymlaen) a'r Clerc.

1: YMDDIHEURIADAU: Y Cynghorwyr Jackie Bird a Bob Barton.

2. DATGANIADAU O DDIDDORDEB..

A. Y Cyng. Rhian Jones – eitem 6 ar yr agenda.

B. Y Cyng. Dave Ritchie – eitem 12 ar yr agenda.

3. CADARNHAU COFNODION CYFARFOD BLAENOROL Y CYNGOR.

Derbyniodd yr Aelodau gofnodion cyfarfod 5 Tachwedd 2018 fel rhai cywir, a llofnodwyd hwy gan y Cadeirydd.

4. MATERION YN CODI O'R COFNODION NAD YDYNT AR YR AGENDA.

A. Mae'r sicc am £600.00 i Ysgol Llanbedr wedi ei ddychwelyd gan fod Ivor Richards wedi sicrhau grant ar gyfer codi'r tŷ gwydr.

B. Modur wedi ei barcio – Mae Mr Buckley wedi gweithredu ar gais y Cyngor i symud ei gar i neuadd y pentref, ac mae llythyr diolch wedi'i anfon ato.

5. DIWEDDARIAD YNGLŶN EGLWYS HYNAFOL SAN PEDR.

Mae'r Cyngor Plwyf Eglwysig wedi cytuno rhoi cyllid cyfatebol at y grant o £150.00 a roddir gan y Cyngor Cymuned ar gyfer torri'r gwair yn rheolaidd yn y fynwent. Bydd y sicc o £150.00 yn cael ei anfon i Bwyllgor Eglwys hynafol San Pedr.

6. DIWEDDARIAD AM Y GANOLFAN GYMUNEDOL.

A. Ni lwyddodd y cynnig cyfrandaliadau i gyrraedd ei darged potensial lleiaf. O'r herwydd, bydd yn dod i ben ar 7 Rhagfyr 2018, a bydd pob sicc yn cael ei ddychwelyd.

B. Mae perchennog y Griffin bellach yn edrych ar fodolau amgen ar gyfer cyfleuster hamdden neu ddefnydd arall o'r safle.

C. Diolchodd y Cadeirydd i'r Cynghorwyr Tim Baker a Dave Ritchie am eu holl ymdrechion i gael Cymuned Llanbedr yn rhan o brosiect y Griffin. Nododd y Cyng. Ken Tams fod y Cyngor Cymuned a Phwyllgor Rheoli'r Griffin wedi ceisio ei hail-sefydlu fel ased i'r gymuned.

D. Gofynnwyd i'r Cynghorydd Baker adrodd yn ôl gyda dadansoddiad o gyfrifon y Pwyllgor Rheoli.

7. DIWEDDARIAD AM 'EASY FUNDRAISING'.

Dywedodd y Cynghorydd Rhian Jones fod cynllun 'Easy Fundraising' wedi'i sefydlu gan Ysgol Llanbedr.

8. ADRODDIAD AR ACHLYSUR Y GOLEUADAU NADOLIG.

Cynhaliwyd dathliad y Cyngor Cymuned ar nos Wener 30 Tachwedd. Roedd hi'n noson fwyn iawn, a gwelwyd y nifer uchaf erioed o bobl o bob oed yno. Daeth yr achlysur i ben gyda phawb yn llenwi neuadd y pentref ac yn mwynhau mins peis, gwin brwd neu luniaeth arall a ddarparwyd gan rieni disgyblion Ysgol Llanbedr.

Hoffai'r Cyngor Cymuned ddiolch i'r canlynol am roi eu hamser a'u rhoddion yn hael:-
Mr Richard Thomas.

J.T. Williams Garden Machinery.

Y Parch. Philip Chew.

Geoff a Pam Andrews.

Jane Heginbotham ac Ysgol Llanbedr.

Julia Baddock, Llywodraethwyr a Chyfeillion Ysgol Llanbedr.

Ron Bell a Phwyllgor Neuadd Bentref Llanbedr.

Siân Jones.

Linda Roberts.

Ken Tams.

Jackie Bird.

Rhian Jones.

Lyn Evans.

Ray Molyneux.

Ivor Richards.

Brenda Jones.

Gwelliannau ar gyfer y flwyddyn nesaf – Gofynnodd y Cyng. Rhian Jones am gynnwys adloniant Cymraeg yn y dathliadau, am i oleuadau ychwanegol gael eu gosod yn y fynwent, ac efallai cael stiward i gadw'r plant yn ddiogel.

9. DIWEDDARIAD AM GYLCHGRAWN 'LINK'.

Nid yw cynrychiolydd Llanbedr wedi anfon unrhyw awgrymiadau na cheisiadau cadarnhaol yn ôl i'r Cadeirydd ar gyfer gwella hyfywedd dosbarthiad cylchgrawn 'Link'. Nid yw'r mwyafrif o bobl y ward hon yn defnyddio Cyfryngau Cymdeithasol, ac o'r herwydd y 'Link' yw'r ffordd orau o hysbysu pobl am ddigwyddiadau a newyddion cymunedol.

Gofynnwyd i'r Cynghorydd Tim Baker gysylltu â'r golygydd ynglŷn ag anfon newyddion Llanbedr i mewn ac i holi pa gymorth byddent angen i ddsbarthu'r cylchgrawn chwarterol.

10. DIWEDDARIAD AM Y WEFAN.

Mae'r Cyng. Rhian Jones wedi cynnig diweddarau'r safle hyd at y presennol. Gofynnir i'r Cynghorwyr Gruff Jones a Jackie Bird anfon eu manylion personol i'r wefan.

11. MATERION ARIANNOL.

A. Cyfrifon banc:-

1. Cyfrif Cyfredol gyda'r Nat West £12,885.69.

2. Cyfrif Cadw gyda'r Nat West £9,333.25.

B. Taliadau awdurdodedig:-

1. Finline – Cylchlythyrau achlysur Goleuadau Nadolig - £23.99.

2. Lyn Evans – Costau achlysur Goleuadau Nadolig – £62.80.

3. Ysgol Llanbedr - Costau achlysur Goleuadau Nadolig - £17.00.

4. Brenda Jones – costau cyfieithu - £40.00.

5. Cyflog y Clerc am y chwarter a ddaeth i ben ar 31 Rhagfyr 2018 - £440.00.

6. CThEM-TWE(HMRC-PAYE) am y chwarter a ddaeth i ben ar 31 Rhagfyr 2018 - £110.00.

12. CAIS CYNLLUNIO.

Cais cynllunio 16/2018/1024 – Codi estyniad ochr unllawr/ategol yn Beechbank, 13 Tan-y-Bryn, Llanbedr Dyffryn Clwyd – dim gwrthwynebiad.

13. GOHEBIAETH.

Llythyr gan Rebecca Szekely, Llywiwr Cymunedol Cyngor Sir Ddinbych, sy'n gweithio i Age Connects, yn cynnig cyfarfod gyda'r Cyngor Cymuned i ddarparu gwybodaeth am ei rôl. Penderfynodd yr aelodau ei gwahodd i gyfarfod nesaf y Cyngor.

14. MATERION CYNGOR SIR DDINBYCH.

Darparodd y Cynghorydd Lyn Evans ar yr adroddiad canlynol a ddarparwyd gan y Cynghorydd Huw Williams:-

A. Fferm Wynt Clocaenog - Mae'n mynegi pryder am y ffaith y byddwn ni fel cymuned yn cael ein heithrio o'r arian grant a fydd ar gael, er mai ni fydd yn gorfod edrych ar y tyrbinau. Mae'r Cyng. Williams, ynghyd â Chynghorwyr eraill sydd o'r un farn ag ef, wedi trefnu llythyr at Ddatblygwyr y Fferm Wynt ac at Adran Gynllunio Sir Ddinbych yn gofyn i ni gael ein cynnwys, sy'n golygu estyn y ffin ar draws y dyffryn.

Gwnaeth y Cynghorydd Gruff Jones yr arsylwad dilys y byddwn ni'n gorfod edrych ar y fferm wynt heb dderbyn unrhyw gymorth grant, tra nad yw pobl ochr Rhuthun yn gallu ei gweld ond eu bod yn cael y cyfle i wneud cais am arian grant ar gyfer prosiectau cymunedol.

Cynigodd y Cynghorydd Nick Smith ateb arolwg ar lein y fferm wynt ar ran y Cyngor, ac anogodd weddill y Cynghorwyr i lenwi'r arolwg fel unigolion: i godi mater pentref Llanbedr yn cael ei wahardd yn annheg.

B. Cysidro defnyddio arian grant ffynhonnell i ailwampio a hefyd ailddatblygu Neuadd y Pentref.

C. Cysylltu â Williams Homes ar ein rhan – cyfraniad ariannol ar gyfer “y llecyn gwyrdd” a “Neuadd y Pentref”.

15. MATERION BRYS DAN ADRAN 100B (4) O DDEDDF LLYWODRAETH LEOL 1972.

A. Cynigodd y Cyng. Rhian Jones gael dyfynbrisiau ar gyfer adnewyddu arwydd ffordd Llanbedr.

B. Cododd y Cynghorydd Ken Tams fater heb ei ddatrys o'r llaith mewn eiddo rhent yn rhif 30 Maes Derwen. Bydd y Cadeirydd yn canfod y Swyddog perthnasol o'r Cyngor Sir er mwyn i ni gael ysgrifennu atynt i ddarganfod pam nad yw'r mater wedi ei ddatrys. Dylid anfon copi i Huw Williams, y Cynghorydd Sir yn ogystal.

C. Cododd y Cynghorydd Gruff Jones y mater o oryrru drwy'r pentref, - ar ffordd Llandyrnog yn ogystal â'r A494. Mae'r Cynghorydd Dave Ritchie ac yntau wedi gwirfoddoli i helpu i fonitro'r cyflymder. Bydd y Cadeirydd yn cysylltu â Chyngor Cymuned Llanfair i gael gwybod o ble maent yn cael eu gynnau mesur cyflymder, a fyddent yn fodlon eu benthylg/rhentu i ni, neu, gan eu bod wedi hyfforddi gwirfoddolwyr, a fydd y rhain yn fodlon dod i arolygu ffyrdd ein pentref ni.

D. Cododd y Cynghorydd Dave Ritchie yr opsiwn o wahodd cynrychiolydd o Heddlu Gogledd Cymru i ddod i siarad am yr hyn y maent hwy'n ei wneud yn y gymuned, yn cynnwys monitor goryrru drwy'r pentref.

E. Cododd y Cynghorydd Tim Baker y mater o drefnu Grŵp Cyswllt fyddai'n cynnwys y Cyngor Cymuned, Neuadd y Pentref, yr Ysgol, Sioe Llanbedr a'r Eglwys yn gynnar yn y Flwyddyn Newydd i greu cynllun cynhwysfawr i wneud Llanbedr a'r Cylch yn lle bywiog i gael "Cymuned".

F. Diolchodd y Cadeirydd i bawb am gyfrannu at bwyllgor cynhyrchiol dros ben, a dymunodd Nadolig llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb.

16. CYFARFOD NESAF Y CYNGOR - Dydd Llun 7 Ionawr 2019 yn yr Ystafell Bwyllgor, Neuadd y Pentref, Llanbedr Dyffryn Clwyd am 7.30 y.h.